

Cynllun Datblygu Ysgol: Crynodeb

Hunanwerthuso ysgol: Trosolwg

Cryfderau:

Mae gan yr ysgol ethos ofalgar a chynhwysol

- Mae'r dysgwyr yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion
- Mae'r dysgwyr ymfalchïo yn yr ysgol ac yn falch o fod yn rhan o'i chymuned
- Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu tuag at fywyd ysgol drwy amrywiaeth o bwyllgorau
- Mae gan y dysgwyr ymwybyddiaeth dda o hawliau plant y Cenhedloedd Unedig (Gwobr Aur UNICEF)
- Mae athrawon yn ennyn diddordeb y dysgwyr drwy ddefnyddio dull greadigol ac arloesol o gynllunio'r cwricwlwm
- Mae'r profiadau dysgu yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn drawsgwricwlaidd ac mewn modd integredig
- Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o bob un dysgwr ac maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn ddychmygus i herio pob grŵp o ddysgwyr
- Ceir perthynas broffesiynol gref iawn rhwng y dysgwyr a'r staff
- Mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u pwyntiau cychwyn amrywiol
- Mae gweledigaeth glir yn ei lle sy'n cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru
- Ceir diwylliant o ymholi a datblygu ar draws yr ysgol gyda'r staff yn myfyrio yn rheolaidd ar eu haddysgeg
- Mae gan yr ysgol ffocws gryf ar ddatblygiad proffesiynol staff
- Mae sgiliau digidol disgyblion yn cael eu datblygu'n dda, ac mae disgyblion yn defnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol ar draws pob maes o'u dysgu.
- Mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.
- Mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol.
- Mae ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol, gweithredol a deniadol.
- Mae'r gwersi wedi'u cynllunio'n dda ac yn adeiladu'n ddilynol ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth disgyblion.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gefnogi pob plentyn a'u teuluoedd.
- Mae trefniadau pontio'n gryf gyda'r Ysgol Uwchradd a cheir cydweithio agos rhwng ysgolion y clwstwr â Glantaf ar y Cwricwlwm i Gymru.

Meysydd i'w datblygu: • Cynyddu y cyfleoedd a ddatblygu sgiliau Llafaredd ar draws y Cwricwlwm. • Sicrhau cyfleoedd ehangach i ddatblygu Lles a lechyd disgyblion a'i wreiddio yn ein Cwricwlwm. • Sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu sgiliau rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024 /2025	
Blaenoriaeth	Gwerthusiad o'r cynnydd
Llunio dealltwriaeth a chytundeb ysgol gyfan o ddysgu annibynnol	O ganlyniad i hyn mae gan yr athrawon gwell dealltwriaeth o sut mae 'Dysgu annibynnol' yn edrych yn y Dysgu Sylfaen. Yn cynnwys beth yw nodweddion dysgwr annibynnol ac amgylcheddau effeithiol yn y Dysgu Sylfaen.
Datblygu ymagwedd ysgol gyfan at les er mwyn sicrhau mynediad lawn i'r cwricwlwm i bob dysgwr.	Mae lansiad Dydd Llun Lles a Dydd Hawl-lau wedi dechrau codi statws y Maes yn y dosbarthiadau ac yn hyrwyddo sgysiau mwy penodol a phwrpasol. Buodd adborth positif yn yr holiadur i'r rhieni am rannu thema'r wythnos yn y cylchlythyr.

Myfyrio ar ein hymarfer ac amgylchedd ddysgu drwy lens amrywiaeth, gwrth hiliaeth a chynefin gan sicrhau ehangder yn ein cwricwlwm.	Mae llais y dysgwr wedi chwarae rhan allweddol yn ein prosesau eleni ac o ganlyniad wedi dylanwadu yn gadarnhaol ar bolisiau'r ysgol e'e Polis Gwrthhiliol. O ganlyniad fe aeth y staff ati hefyd i fapio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.O hyn fe welwyd fod trawsdoriad o grefyddau a chyd destynau ar draws y MDPH ac oherwydd roedd wedi arwain y staff i ystyried os yw eu cyd-destunau dysgu yn galluogi ehangder.
Datblygu rôl dosranedig arweinyddiaeth ar draws yr ysgol	O ganlyniad i weithio mewn triawdau mae'r staff wedi rhannu strategaethau ar sut i ddatblygu ac hyrwyddo annibyniaeth yn eu gwersi. Mae cael cyfle i weithio mewn triawdau ar draws y camau cynnydd wedi galluogi'r athrawon i ystyried yn ddwys effaith y strategaethau maent wedi mabwysiadu. Gan bod yr athrawon wedi adrodd nôl ar ddiwrnod HMS roedd hyn yn rhoi cyfle i'r staff cynorthwyl i fod yn rhan o'r ddeialog broffesiynol
Sicrhau fod plant yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu wrth gymharu a'u man cychwyn	O ganlyniad mae CC3 a enghreifftiau o Taro'r Traged ar waith yn llyfrau'r dysgwyr CC3 yn treialu Taro'r Targed - ei ddefnyddio fel ymateb y dysgwyr i adborth ar waith ysgrifenedig, ac i weithredu ar dargedau unigol Sesiynau yn CC1-CC3 yn craffu ar lyfrau/ysgrifennu dysgwyr. Mae gwahanol strategaethau wedi sicrhau cynnydd ac os oes unrhyw rwystrau wedi bod - rhannu syniadau am strategaethau os oes unrhyw bryder am gynnydd unigolion

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025 /2026

Blaenoriaeth	Camau Gweithredu	Cymorth
1. Dysgu ac Addysgu: Iaith a Llythrennedd - Cynyddu y cyfleoedd a ddatblygu sgiliau Llafaredd ar draws y Cwricwlwm	• Mae'r dosbarthiadau a diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo hyder wrth siarad drwy gyfleoedd rheolaidd ar gyfer perfformio. • Mae staff yn derbyn dysgu proffesiynol ar athroniaeth llefaredd a dulliau ac offer megis Llais 21. • Mae cyfleoedd ar gyfer llefaredd wedi'u hintegreiddio ar draws meysydd eraill gan hyrwyddo datblygiad llafar trawsgwricwlaidd.	Trysorfa Llais 21
Cerrig Milltir Rhagfyr Staff gyfan wedi derbyn hyfforddiant strategaethau ac ar sut i gynllunio prosiect llafar. Hyder staff gyfan wedi cynyddu ar sut i ddatblygu llefaredd disgyblion yn effeithiol. Athrawon i gynllunio cyfleoedd cyd-destunol ar draws y MDaPh i ddatblygu llefaredd. Defnyddio y prosiectau i fesur datblygiad llefaredd disgyblion yn erbyn 4 llinyn Llafar Llwyddianus. Nodi tystiolaeth ar Seesaw. Fesul cam cynnydd, cyfleoedd dyddiol i drafod a defnyddio	Cerrig Milltir Mawrth Staff gyfan yn mabwysiadu ac yn defnyddio strategaethau Llafar Llwyddianus yn ddyddiol ar draws y MDaPh. Tystiolaeth trwy drafod a disgyblion. Rhannu arfer da rhwng staff drwy arsylwadau cydweithredol a chynllunio ar y cyd.	Cerrig Milltir Gorffennaf Strategaethau Llafar Llwyddianus wedi gwreiddio yn ein Cwricwlwm dyddiol. Cylch Monitro ac asesu yn mesur effaith y cynllun ar ddatblygiad llefaredd disgyblion gan ddefnyddio Traciwr.

llefaredd i fynegi barn, rhannu syniadau a datblygu iaith.		
2. Iechyd a Lles - Sicrhau cyfleoedd ehangach i ddatblygu Lles a Iechyd disgyblion a'i wreiddio yn ein Cwricwlwm	• Archwilio'r ddarpariaeth bresennol o Iechyd a Lles ar draws pob grŵp blwyddyn i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. • Mapio cyfleoedd Iechyd a Lles drwy wythnosau/dyddiau thematig (e.e., Wythnos Lles, Wythnos Gwrth-fwllo) a gwasanaethau ysgol gyfan. • Ymgorffori amcanion Iechyd a Lles mewn cynllunio tymor canolig a byr ar gyfer pob dosbarth, gan sicrhau bod cysylltiadau trawsgwricwlaidd yn amlwg.	Gwaith Maes Dysgu a Phrofiad Clwstwr.
Cerrig Milltir Rhagfyr Archwilio'r ddarpariaeth bresennol o Iechyd a Lles ar draws pob grŵp blwyddyn i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mapio cyfleoedd Iechyd a Lles drwy wythnosau/dyddiau thematig (e.e., Wythnos Lles, Wythnos Gwrth-fwllo) a gwasanaethau ysgol gyfan	Cerrig Milltir Mawrth Ymgorffori amcanion Iechyd a Lles mewn cynllunio tymor canolig a byr ar gyfer pob dosbarth, gan sicrhau bod cysylltiadau trawsgwricwlaidd yn amlwg. Datblygu ardaloedd tawel a llesol tu allan lle gall y disgyblion ymlacio a myfyrio. Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach drwy weithdai,	Cerrig Milltir Gorffennaf Awdit dulliau emosiynol a meddyliol yr ysgol.

	cylchlythyrau a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles.	
3. Dysgu ac Addysgu: Sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu sgiliau rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.	- Hyfforddiant / cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd yn yr awyr agored ac ar draws y meysydd dysgu pan ei fod yn bwrpasol ac ystyrion. - Achub ar gyfleoedd i sicrhau bod y ffordd ymlaen yn herio'r disgyblion yn bwrpasol yn ystod tasgau rhifedd yn gyson trwy wahaniaethu effeithiol. - Prosiect cyd-weithio CLIPS gyda ysgolion Caerdydd ar ddatblygu cyfleoedd Rhifedd ar Draws y MDaPh	Prosiect cyd-weithio CLIPS. Louise Davies – Arweinydd Mathemateg a Rhifedd
Cerrig Milltir Rhagfyr Hyfforddiant / cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd yn yr awyr agored ac ar draws y meysydd dysgu pan ei fod yn bwrpasol ac ystyrion. Prosiect cyd-weithio CLIPS gyda ysgolion Caerdydd ar ddatblygu Rhifedd ar Draws y MDaPh	Cerrig Milltir Mawrth Sicrhau fydd yr addysgu yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau dealltwriaeth fathemategol a datblygu sicrwydd wrth gymhwyso dulliau.	Cerrig Milltir Gorffennaf Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu cysylltu gwaith blaenorol mathemategol er mwyn datrys problemau.
4. Dysgu ac Addysgu: Sicrhau cyfleoedd ehangach i ddatblygu	Integreiddio gweithgareddau ymchwiliol agored i bob uned wyddoniaeth a defnyddio senarios	Hyfforddiant Consortiwm.

chwilfrydedd ein dysgwyr yn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.	go iawn neu broblemau i sbarduno meddwl chwilfrydig. Mae triawdau'n cefnogi datblygiad egwyddorion addysgegol gan ymchwilio, arbrofi, mireinio a mesur effaith. Cynnal diwrnodau thema (e.e. Diwrnod Gwyddoniaeth, Wythnos STEM). Er mwyn datblygu chwilfrydedd disgyblion ymhellach.	
Cerrig Milltir Rhagfyr Sefydlu clwb STEM neu glwb gwyddoniaeth wythnosol. Trefnu ymweliadau gan wyddonwyr, peirianwyr neu arbenigwyr technoleg.	Cerrig Milltir Mawrth Sefydlu triawdau ymchwilio fesul CC - ffocws ar llinyn: 'datblygu chwilfrydedd a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.'	Cerrig Milltir Gorffennaf Sicrhau fod datblygiad clir ar ran cynllunio, arbrofi, dadansoddi a gwerthuso yn amlwg o fewn llyfrau'r plant, gan gynnwys senarios byd go iawn.
5. Cydlynu a datblygu prosesau gwerthuso'r ysgol ymhellach gan gryfhau llais rhanddeiliaid yr ysgol.	Cydlynu prosesau gwerthuso'r ysgol mewn dull clir sydd yn cyfrannu at y weledigaeth ar gyfer gwella. Llais staff ar gryfderau, agweddau i'w datblygu a gweledigaeth wedi'i gasglu yn effeithiol ac yn bwydo'n gryf i brosesau gwerthuso a gwella.	Rhian Williams – Partner Gwella Llywodraethwyr.

Cerrig Milltir Rhagfyr	Cerrig Milltir Mawrth	Cerrig Milltir Gorffennaf
Holiaduron barn am yr ysgol (wedi'i selio ar holiaduron barn Estyn) wedi'i goladu gan staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr a hyn yn bwydo'n prosesau gwerthuso a gwella Amserlen gwerthuso tymhorol (teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a chyfarfodydd cynnydd) ar waith, yn effeithiol ac yn cynnwys cymaint o randdeiliaid ag sy'n bosib, gan gynnwys plant, staff ar bob lefel a llywodraethwyr	Llais staff yr ysgol wedi'i gryfhau yn y prosesau gwerthuso, e.e. trwy driawdau dysgu, Cynlluniau Maes Dysgu a Phrofiad.	Holiaduron wedi rhyddhau i holl rhanddeiliaid yr ysgol. Datblygiad a chynnydd o ran llais o fewn ein prosesau.